www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan

Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Ymgyrch yn rhoi meysydd golff ar y map

parhad

01745 589020
www.tpnw.org

ewelcome
e-fwletin partneriaeth twristiaeth gogledd cymru rhifyn 2 tud 1

Ymgyrch yn rhoi meysydd golff ar y map

Mae ymgyrch fawr i hyrwyddo meysydd golff Gogledd Cymru wedi cychwyn o ddifrif – ac mae golffwyr tramor eisoes yn heidio i'r ardal.

Mae'r ardal yn profi i fod yn arbennig o boblogaidd ymysg golffwyr o Sweden gan fod meysydd golff y wlad honno ar gau tan fis Mawrth nesaf.

Ond mae golffwyr hefyd yn dod yma o wledydd eraill Gogledd Ewrop ac erbyn hyn mae yna gynlluniau i fanteisio ar y farchnad Wyddelig hefyd.

Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru sydd y tu ôl i ymgyrch Golff Gogledd Cymru, sef y corff sy'n gyfrifol am ddatblygiad strategol twristiaeth yn y rhanbarth.

Ei nod yw sicrhau bod Gogledd Cymru yn manteisio i'r eithaf ar y cyffro y mae Cwpan Ryder 2010 yn ei greu.

Ar ôl y Gemau Olympaidd a Chwpan Pêl-droed y Byd, dyma'r trydydd digwyddiad mwyaf yn y calendr chwaraeon.

Yn 2010 caiff y gystadleuaeth ei chynnal yn y Celtic Manor, Casnewydd, ond mae disgwyl iddi gyfrannu degau o filiynau o bunnoedd i economi Cymru gyfan.

Mae'r Bartneriaeth Twristiaeth wedi datblygu gwefan newydd gyda chyfleusterau archebu ar-lein ac wedi cyhoeddi taflen newydd i gyd-fynd â Chwpan Ryder.

O ganlyniad, mae'n gobeithio cynhyrchu mwy na £150,000 o refeniw twristiaeth ychwanegol yn ystod y flwyddyn nesaf yn unig.

Mae yna eisoes dystiolaeth fod clybiau golff yn mwynhau cynnydd aruthrol yn yr incwm a gânt o ffioedd chwarae.

Meddai Roger Lewis, Cydgysylltydd Golff Gogledd Cymru y Bartneriaeth Twristiaeth: "Mae golff yn fwy poblogaidd yng Ngogledd Cymru nag yn y De ac mae mwy o alw amdano yma, ar wahân i'r Celtic Manor, Casnewydd, sef lleoliad Cwpan Ryder.

"Mae prisiau chwarae yn ddeniadol iawn i bobl ledled Gogledd Cymru ac mae ein cysylltiadau trafnidiaeth gwych yn golygu ei bod yn hawdd iawn cyrraedd yma.

tud 2 →

Carole Startin gyda Roger Lewis

"Mae golffwyr yn dod yma o bob cwr o Ogledd Ewrop, yn enwedig Sweden, gan fod eu meysydd golff nhw wedi cau dros y gaeaf, tan fis Mawrth nesaf.

"Mae ein meysydd golff yn denu grwpiau o Sweden yma i fwynhau'r gêm, heb sôn am bobl o'r Ffindir a'r Almaen.

"Y peth da yw bod eu hymateb nhw'n wirioneddol gadarnhaol - maen nhw wedi gwirioni gyda safon y meysydd golff.

"Maen nhw wrth eu boddau gyda meysydd golff ar y twyni, gan nad yw'r rheiny'n bod mewn sawl rhan arall o'r byd – yn ogystal â'r croeso sydd i'w gael gan glybiau Cymru.

"Mae gennym dri maes golff sydd cystal ag unrhyw un arall ym Mhrydain – mae Harlech, Aberdyfi and Chonwy ymhlith y 10 uchaf yn y Deyrnas Unedig.

"Conwy yw'r unig faes golff yng Nghymru i gael ei ddefnyddio yn y twrnamaint cymhwyso ar gyfer Pencampwriaeth Agored Prydain ac fe'i dewiswyd eto eleni ar gyfer Pencampwriaeth Chwaraewyr Hŷn Cwpan Ryder.

"Mae yna feysydd golff gwych eraill ledled Gogledd Cymru, pob un ohonynt â'u cyfaredd eu hunain.

"Y duedd yw bod pobl eisiau chwarae un cwrs eiconig cyn mynd ymlaen i chwarae ar y cyrsiau llai adnabyddus.

"Yn aml, mae'r trysorau cudd yma'n profi i fod yn fwy hudolus ac yn fwy pleserus na'r cyrsiau mwy adnabyddus.

"Mae'n eithaf anghyffredin i ymwelwyr tramor ddod i'r meysydd golff hynny. Mae'n mynd yn hynod o dda.

"Wrth gwrs, ein busnes craidd yw denu pobl i groesi'r ffin o Loegr.

"Mae Lerpwl, Manceinion a Birmingham mor agos, ac mae 90 y cant o'n busnes yn dod o'r dinasoedd hynny.

"Rydym hefyd yn ceisio torri i mewn i'r farchnad Wyddelig. Mae golff wedi mynd yn gêm eithriadol o ddrud yn Iwerddon ac mae'r gwasanaeth fferi'n golygu ei bod yn hawdd ofnadwy iddyn nhw ddod yma.

"Mae ein meysydd golff ni cystal â'r rhan fwyaf o feysydd golff Iwerddon ac felly rydym yn credu fod yna botensial i ddatblygu'r farchnad yma.

Meddai Carole Startin, Swyddog Gweithredol Marchnata a Digwyddiadau'r Bartneriaeth Twristiaeth: " Mae golff yn bwysig dros ben i ni ac yn un o'r cynnyrch pwysicaf rydym yn eu hyrwyddo.

"Mae Cwpan Ryder wedi'n gosod ar fap y byd, ar ôl y cyhoeddiad ein bod yn ddigon ffodus i ddenu'r digwyddiad yn 2010.

ewelcome

Carole Startin gyda, o'r chwith, Aled Jones, Roger Lewis a Peter Lees

"Mae Gogledd Cymru hefyd yn manteisio ar lewyrch Cwpan Ryder ac mae yna fwy o gyllid ar gael i glybiau wella'r hyn sydd ganddyn nhw i'w gynnig.

"Am y tro cyntaf erioed, mae gennym amseroedd tïo ar-lein a chyfleuster i archebu gêm mewn sawl clwb ar yr un pryd yn ogystal â rhywle i aros, trwy fynd i'r wefan www.golf-northwales.co.uk.

"Mae gwefan wedi bodoli ers dwy neu dair blynedd ond mae'r un newydd yn cynnwys cyfleuster archebu ar-lein, sy'n bwysig gan fod mwy a mwy o bobl yn awyddus i wneud eu gwaith ymchwil ac archebu ar-lein bedair awr ar hugain y dydd.

"Rydym yn gobeithio y bydd yr ymgyrch Golff Gogledd Cymru yn cynhyrchu £150,000 o'r llinell archebu arferol ac rydym yn gobeithio cael 100,000 o ymwelwyr unigol â'r wefan."

Ychwanegodd Aled Jones, Ysgrifennydd/ Rheolwr Clwb Golff Conwy: "Cyn gynted ag y gorffennodd gêm olaf Cwpan Ryder yn Kentucky, trodd y byd golff ei olygon tuag at Gymru.

"Mae'n gyfle gwych i ni ddangos i weddill y byd beth sydd gennym yng Ngogledd Cymru a gwneud y gorau o Gwpan Ryder. Mae'n gyfle y byddwn ni'n bachu arno'n eiddgar.

Yn ôl Dewi Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol y Bartneriaeth Twristiaeth, mae manteision Cwpan Ryder eisoes yn dechrau llifo i'r cyfeiriad iawn.

Meddai: "Mae gennym amrywiaeth gwych o feysydd golff, yn cynnwys meysydd ar y twyni, sydd wastad yn boblogaidd, ac rydym yn datblygu pecynnau gwyliau golff arbennig ar draws Gogledd Cymru.

"Trwy'r Comisiwn Digwyddiadau, rydym wedi cael gafael ar lawer o gyllid Ewropeaidd tuag at ddigwyddiadau chwaraewyr hŷn a chwaraewyr iau Cwpan Ryder a gynhaliwyd yn Harlech, Conwy a Phorth Llechog ar Ynys Môn.

"Mae'r buddsoddiad y bu'n rhaid i'r clybiau yna ei wneud wedi eu galluogi i gamu i fyny i gynghrair uwch.

"O ganlyniad, mae meysydd golff Gogledd Cymru eisoes yn denu mwy a mwy o fusnes.

"Mewn llawer o achosion mae'r incwm o ffioedd chwarae yn cynyddu o symiau chwe ffigwr."

Ewch i

www.golf-northwales.co.uk

neu ffoniwch 0845 4505885 i gael mwy o wybodaeth